


CERAMIC SERIES

RUTHANNE TUDBALL

by Emmanuel Cooper



Pots made to be used around the home, as opposed to be merely looked at, are not so much in vogue at the moment. Potters are tending to shy away from practical concerns in favour of more decorative qualities, so when a potter comes along who seems to combine practical and decorative aspects in their pots then it is worth sitting up to take note. Ruthanne Tudball is such a potter. Her thrown and vapour-fired pots with strong forms and richly textured orange, cream and tan surfaces, are intended to be used for serving and cooking food, holding fruit or containing flowers — they are equally pleasing to look at whether used or not.

Like many potters, Ruthanne Tudball came to be a potter via a circuitous route, though like many others she knew from childhood that this was what she wanted to do. At home in the foothills of the mountains which form the backbone curving round the Los Angeles basin in California, she was introduced to clay by her mother who made and decorated china pieces. Tudball used the clay for modelling her own shapes and the free handling of the material is a quality evident in her current forms. Meeting her husband-to-be during a visit resulted in her coming to England at the age of 19, only to find that the absence of 'O' or 'A' levels prevented her enrolling at university or art school. A brief stint as a nurse convinced her that this was not her vocation 'I couldn't stand the sight of blood', and this career was abandoned. A six month crash course in A levels proved more rewarding and in due course she found herself studying English at Reading University.




The lure of clay continued to attract her, and after graduating Ruthanne Tudball attended evening classes, though she was continually frustrated by breakages and badly fired pots. Courses proved more satisfactory. For some time she worked with Renee Rubinstein who had a pottery in near-by Henley, and later spent a week studying with Phil Rogers. All provided a solid body of knowledge and she turned the basement of their house into a studio, firing her pots in a 6 cu ft Amaco electric kiln. 'Practically everything I made for some time were tests and this was a great time of discovery'. With a family to bring up, Tudball became involved in teaching clay work at the local primary school and this eventually lead her to take a one year teacher training course. But it was clay which was her main interest and her probation was spread over two years so that she had half the week in which to pot.

Ruthanne Tudball's big break came during a post graduate two year course at Goldsmiths' College, London. Here Ken Bright encouraged her to find things out for herself, 'Though Ken had no stylish influence on the pots I made, his support was crucial in helping me find my own voice'. Although attracted to saltglaze firing, she found this was not possible at Goldsmiths' and using a kiln built by an earlier student, spent a happy if at times frustrating year experimenting with alternatives which do not cause pollution. 'No one from California can be ignorant of the effects of pollution, so one of the attractions of sodium firing is that it does not contaminate the atmosphere like salt'.

The experiments were successful and Tudball devised a method of using sodium which gave good results. By now the Tudball family had moved to a larger house on the outskirts of Reading where she could set up her pottery; with the help of Michael O'Brien who came to stay for a week, she built a sprung arch kiln with a 12 cu ft packing chamber fired with natural gas. To an untutored eye, the effects Tudball achieves look as rich and deep as traditional salt glazing. 'The kiln works like a dream, it fires evenly, reaches temperature in a reasonable time and gives me the sort of results I like'. For someone who is as productive as Tudball, her workshop is small and, being near the house, it is kept spotlessly clean.

Attracted by the plastic qualities of the clay, Ruthanne Tudball has devised methods of working which aim to retain as much of the fluid qualities of the material as possible. Pots are thrown quickly and with little or no turning. A teapot is made and fitted with a spout and handle as soon as it is thrown, and is usually finished within half an hour. 'I like this speed and being able to work so directly means that the pots retain as much as possible of their freshly made look'. A particular characteristic of Ruthanne Tudball's work is her teapots which have a spout linked to the kettle-type handle with a neat bridge, appearing as a natural part of the making process. 'The spout is based on a Song ewer I saw at the Victoria & Albert Museum. I noticed it and though I had seen it before, it was like seeing it for the first time. I knew at once that this was what I wanted to make, and since have found ways of making this visually and practically successful'. This classic reference point is evident in the proportions on the taller jug shapes, on which Tudball has made the device of the folded spout very much her own. The gently curving forms have a controlled, fluid, relaxed quality which gives the impression of just having come off the wheel.

Equally impressive are her bowls and plates. Fascinated by the endless need to test different clay bodies and slips in different parts of the kiln, Tudball cuts slabs from a block of clay which are then placed and thrown on the wheel leaving delicate throwing lines and a subtle curving form. Recent experiments of cutting slabs of clay with a stretched spring to give textured, patterned surfaces which have been incorporated into flat bottomed dishes with thrown walls added, are equally lively and fresh. The addition of freely pulled and added feet lift the pots off the table giving them an almost ritualistic quality. Another characteristic this inventive potter has devised is to cut facets as the wheel continues to turn so they curve round teapots or mugs, so adding a further element of movement, enhancing the tactile qualities of the pots. Mugs with tall generous handles are a pleasure to hold and drink out of.



Any sort of vapour firing is a gruelling test of the art of the potter. Unlike conventional glaze, the thick layer of glass deposited by the vapour as it reacts with the clay reveals practically every finger mark, recording with meticulous fidelity the history of the making of the piece. Any hesitant marks or corrections are remorselessly revealed. Ruthanne finds this challenge one she is well able to handle, with the judicious use of slips adding colour and texture. Recent trials with a slip made from a low iron-bearing clay have yielded some tasty oranges which contrast with the more matt pinky oranges from China clay. Slips, applied with a feeling for the form on which they are going, echo the shape. Many are subtle variations of the spiral, the broad line reflecting the momentum of the wheel and the flow of clay on clay. Definitely pots to use and admire.

© Aberystwyth Arts Centre, University College of Wales. Tel: (0970) 622887.

GYFRES GERAMEG

RUTHANNE TUDBALL

gan Emmanuel Cooper



Keith Morris

Nid yw potiau a wneir i gael eu defnyddio o gwmpas y tŷ, o'u cymharu â rhai i syllu arnynt yn unig, yn arbennig o boblogaidd ar y funud. Tuedda crochenyddion i osgoi ystyriaethau ymarferol a gogwyddo i gyfeiriad nodweddion mwy addurnol, felly pan ymddengys crochenydd sydd fel pe bai'n cyfuno agweddau ymarferol ac addurnol yn ei photiau mae'n werth talu rhagor o sylw iddi. Dyna'r math o grochenydd yw Ruthanne Tudball. Mae ei photiau a gaiff eu llunio ar droell a'u tanio mewn anwedd, gyda'u ffurfiau cryfion a'u harwynebau oren, hufen a melyngoch, cyfoethog eu gwead, wedi eu bwriadu i'w defnyddio ar gyfer gweini a choginio bwyd, neu i ddal ffrwythau neu flodau - maent yr un mor bleserus i edrych arnynt pa un a ydynt yn cael eu defnyddio neu beidio.

Fel llawer o grochenyddion, daeth Ruthanne Tudball yn grochenydd mewn ffordd bur anuniongyrchol, er ei bod fel amryw eraill yn gwybod er yn blentyn mai dyna oedd hi am fod. Gartref yn y brynau wrth odre'r mynyddoedd sy'n ffurfio'r asgwrn cefn sy'n cylchu basn Los Angeles yng Nghaliffornia, cafodd ei chyflwyno i glai gan ei mam a oedd yn llunio ac yn addurno eitemau tsieni. Byddai Tudball yn defnyddio'r clai i fodelu ei ffurfiau ei hun ac mae ei dull rhwydd o drafod y deunydd yn nodwedd amlwg o'r ffurfiau mae hi'n eu llunio ar hyn o bryd. Cyfarfu â'i darpar ŵr pan ar ymweliad ac o ganlyniad daeth i Loegr i fyw pan yn 19 oed a chanfod na allai gael mynediad i brifysgol nac ysgol gelf oherwydd nad oedd ganddi lefelau 'O' nac 'A'. Treuliodd gyfnod byr yn gweithio fel nyrs a chael ei hargyhoeddi nad dyna'r alwedigaeth iddi hi. 'Allwn i ddim dioddef gweld gwaed,' a dyna ddiwedd ar yr yrfa honno. Daeth mwy o lwyddiant wrth ddilyn cwrs carlam ar gyfer lefel 'A' ac ymhen amser fe'i cafodd ei hun yn astudio Saesneg ym Mhrifysgol Reading.



Roedd hudoliaeth clai yn dal i'w denu, ac ar ôl graddio aeth Ruthanne Tudball i ddosbarthiadau nos, er ei bod yn dioddef rhwystredigaethau parhaus wrth weld potiau yn torri neu'n cael eu tanio'n aflwyddiannus. Aeth ar gyrsiau a oedd yn fwy llwyddiannus. Am beth amser bu'n gweithio gyda Renee Rubinstein yn ei chrochendy cyfagos yn Henley, ac yn ddiweddarach treuliodd wythnos yn astudio gyda Phil Rogers. Rhwng y cyfan enillodd gryn dipyn o wybodaeth ddibynadwy a throï llawr isaf ei thŷ yn stiwdio, a thanio ei photiau mewn odyr trydan Amaco 6 troedfedd giwbig. 'Roedd bron bopeth a wnawn am beth amser yn arbrofol ac roedd yn gyfnod o ddarganfyddiadau.' Gyda theulu i'w fagu, dechreuodd Tudball ymwneud â dysgu gwaith clai mewn ysgol gynradd leol ac arweiniodd hyn hi yn y pen draw i fynd ar gwrs hyfforddi am flwyddyn. Ond clai oedd ei phrif ddiddordeb ac ymestynwyd ei chyfnod prawf dros ddwy flynedd er mwyn iddi allu treulio hanner yr wythnos yn llunio potiau.

Daeth cyfle mawr Ruthanne Tudball pan aeth ar gwrs dwy flynedd i raddedigion yng Ngholeg Goldsmith yn Llundain. Yno anogodd Ken Bright hi i ddarganfod pethau drosti ei hun. 'Er na chafodd unrhyw ddylanwad arddulliol ar y potiau a wnawn, roedd ei gefnogaeth yn allweddol wrth fy helpu i ddarganfod fy llais fy hun.' Er bod tanio gwydredd halen yn apelio ati, gwelodd nad oedd hynny'n bosibl yn Goldsmiths a thrwy ddefnyddio odyr a luniwyd gan gyn-fyfyriwr, treuliodd flwyddyn ddedwydd, ond rhwystredig ar brydiau, yn arbrofi gyda ffyrdd amgen na fyddai'n achosi llygredd. 'Ni all neb sy'n dod o Galiffornia fod yn anymwybodol o effeithiau llygredd, felly un o'r pethau deniadol ynglŷn â thanio sodiwm yw nad yw'n llygru'r awyr yn yr un modd â halen.'

Bu'r arbrofion yn llwyddiant a dyfeisiodd Tudball ddull o ddefnyddio sodiwm a oedd yn rhoi canlyniadau da. Erbyn hyn roedd y teulu Tudball wedi symud i dŷ mwy ar gyrion Reading lle y gallai sefydlu ei chrochendy ei hun; gyda chymorth Michael O'Brien a ddaeth i aros am wythnos, cododd odyr bwa sbring gyda siambr pacio 12 troedfedd giwbig yn cael ei thanio â nwy naturiol. I lygad anghyfarwydd mae'r effeithiau y mae Tudball yn eu creu yn edrych yr un mor ddwfn a chyfoethog â gwydredd halen traddodiadol. 'Mae'r odyr yn gweithio fel breuddwyd, mae'n tanio'n wastad, yn dod i wres mewn amser rhesymol ac yn rhoi'r math o ganlyniadau rwy'n eu hoffi.' I rywun sydd mor gynhyrchiol â Tudball, mae ei gweithdy yn fychan a chan ei fod mor agos i'r tŷ, yn cael ei gadw'n berffaith lân.

Gan ei bod yn cael ei denu gan ansawdd blastig clai, mae Ruthanne Tudball wedi dyfeisio dulliau o weithio sy'n amcanu i gadw cymaint o ansawdd hylif y deunydd ag y bo modd. Caiff potiau eu llunio'n gyflym ar y droell gydag ychydig os dim turnio. Gwneir tebotiau a dodir dolen a phig arnynt y munud y cânt eu llunio, ac fel rheol maent wedi eu cwblhau mewn hanner awr. 'Rwy'n hoffi cyflymder ac mae gallu gweithio'n uniongyrchol yn golygu bod y potiau yn cadw cymaint ag sy'n bosibl o'r olwg newydd-eu-gwneud.' Un o nodweddion arbennig gwaith Ruthanne Tudball yw ei thebotiau gyda phig wedi ei gysylltu â dolen fel yr un a geir ar degell, gyda phont daclus sy'n ymddangos yn rhan naturiol o'r broses o'u llunio. 'Mae'r pig wedi ei seilio ar ystên Song a welais yn Amgueddfa Fictoria ac Albert. Sylwais arno ac er fy mod wedi ei weld o'r blaen, roedd fel pe bawn yn ei weld am y tro cyntaf. Gwyddwn ar unwaith mai dyna roeddwn am ei wneud, ac ers hynny rwyf wedi dod o hyd i ffyrdd o'i wneud yn weledol ac yn ymarferol lwyddiannus.' Mae'r cyfeirnod clasurol hwn yn amlwg yng nghymesuredd y ffurfiau jwg talaf lle mae Tudball yn gwneud i ddyfais y pig plygedig fod yn gwbl nodweddiadol ohoni ei hun. Mae i'r ffurfiau sy'n crymu'n esmwyth nodwedd reoledig, hylif, ymlaciol sy'n rhoi argraff eu bod newydd ddod oddi ar y droell.

Mae ei bowlenni a'i phlatiau yr un mor drawiadol. Oherwydd ei diddordeb mawr mewn abrofi gyda chymysgedd clai a slipiau gwahanol mewn rhannau gwahanol o'r ody, bydd Tudball yn torri slabiau oddi ar bloc o glai ac yna'n eu gosod a'u troi ar y droell nes creu llinellau troelli cain a ffurf crwm cynnil. Mae arbrofion diweddar o dorri slabiau o glai gyda sbring wedi ei hymestyn, er mwyn creu ansawdd arwyneb patrymog, a'u hymgorffori mewn dysglau gwaedol gwastad ac yna ychwanegu ochrau wedi eu llunio ar y droell wedi bod yr un mor fywiog a newydd. Mae ychwanegu traed wedi eu tynnu'n rhwydd sy'n codi'r potiau uwch lefel y bwrdd yn rhoi ansawdd ddefodol bron iddynt. Nodwedd arall a ddyfeisiwyd gan y grochenwraig ddyfeisgar hon yw torri ffasedau wrth i'r droell ddal i droi nes eu bod yn crymu o amgylch tebotiau neu fygiau, ac wrth wneud hynny yn ychwanegu elfen arall o symud ac yn gwella ansawdd gyffyrddol y potiau. Mae'n gwneud mygiau tal gyda dolennau mawr sy'n bleser i gydio ynddynt ac i yfed ohonynt.

Mae tanio anwedd yn brawf llym ar grefft y crochenydd. Yn wahanol i wydreddau confensiynol, mae'r haen denau o wydr sy'n cael ei adael gan yr anwedd wrth iddo adweithio gyda'r clai yn datgleu pob ôl bys, ac yn cofnodi gyda'r manylrwydd mwyaf hanes llunio'r eitem. Caiff unrhyw ôl petruso neu gywirio eu dangos yn gwbl ddiostur. Mae Ruthanne yn ystyried hyn yn sialens y gall ymdopi â hi ac mae defnydd ystyrlon o slipiau yn ychwanegu lliw ac ansawdd arwyneb. Mae treialon diweddar gyda slip a wnaed o glai yn cynnwys ychydig o haearn wedi rhoi lliwiau oren cyfoethog sy'n cyferbynnu â'r lliwiau oren mat lled binc a geir o ddefnyddio clai tsieni. Mae slipiau wedi ei defnyddio gydag ymdeimlad o'r ffurf y maent yn cael ei osod arno, yn atseinio'r ffurf. Amrywiadau cynnil ar y sbiral yw llawer ohonynt, gyda'r llinell lydan yn adlewyrchu momentwm y droell a lif clai ar glai. Yn sicr dyma botiau i'w defnyddio a'u hedmygu.

